Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# 'Ble Mae O D Negatif yn Mynd': Crynodeb o Uchafbwyntiau'r Adroddiad Archwilio

**510**

archwiliwyd 510 o unedau o gelloedd coch grŵp O D negatif (O-) a roddwyd i 17 o ysbytai rhwng Ionawr a Mawrth 2023.

- **Trallwysywd 49.6% o unedau (n=253) i gleifion O D negatif (di-argyfwng)**
- **Cafodd 11.0% (n=56) eu trallwyso i gleifion nad oeddent yn O D negatif er mwyn osgoi Amser Dod i Ben (TIMEX)**
- **Rhoddwyd 10.2% (n=52) at ddefnydd brys**
- **Cafodd 7.8% eu gwastraffu: 6.6% (n=34) TIMEX, 1.2% (n=6) allan o reolaeth tymheredd**
- **Trosglwyddwyd 12.7% (n=65) o fewn y Bwrdd Iechyd**

**Ble aeth gweddill yr unedau:**

- **34 i gleifion nad ydynt yn O negatif am reswm arall** [grŵp ABO, rhai sydd wedi cael prawf antigenau negatif, gofyniad arbennig]
- **3 i gleifion trawsblaniad mêr esgyrn**
- **7 i gleifion â Chelloedd Crymanog/ Thalasaemia/ffenoteip**

## Pwy oedd yn eu defnyddio?

Cyfanswm yr unedau a drallwysywd (n=405) yn ôl arbenigedd clinigol: Defnyddiwyd 13 o unedau O- mewn Obstetreg a 22 mewn arbenigeddau 'eraill'.




## Unedau brys a roddwyd (n=52):

**20** i Fenywod <50 oed

**19** i Fenywod >50 oed

**13** i Ddynion

## Oed y gwaed

Oed unedau safonol† (n=465) adeg cael eu dosbarthu gan Wasanaeth Gwaed Cymru [GGC] (†ac eithrio arbelydredig).

| Adeg | cael eu dosbarthu | gan GGC |
|---|---|---|
| roedd 95% yn ≤21 diwrnod oed | roedd 72% yn ≤14 diwrnod oed | roedd 30% yn ≤7 diwrnod oed |

**Negeseuon allweddol**

- Aeth 49.6% i gleifion O negatif – mae hyn yn codi i 56.7% (n=289) gydag unedau a drosglwyddwyd: mae hyn yn gyson â data archwilio o 2018.
- Aeth 3x yn fwy o unedau brys i fenywod nag i ddynion, yn unol â'r arfer a hyrwyddwyd yng nghanllawiau BHNOG am O D negatif.

**Y camau nesaf** Ochr yn ochr â'r adroddiad am Gymru Gyfan ar gyfer yr archwiliad hwn, mae adroddiadau Byrddau Iechyd unigol yn cael eu cynhyrchu i hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu a fydd yn:

- canolbwyntio ar negeseuon cadarnhaol a mynd i'r afael â diffygion,
- bod â llinellau amser diffiniedig ar gyfer eu cwblhau,
- cael eu hadolygu gan Bwyllgorau Trallwyso Ysbytai i atgyfnerthu arfer da a gwelliannau,
- cael eu cyfleu'n eang ar draws meysydd clinigol i annog defnydd priodol yn ymarferol.